Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Rhif Derbyn: | |
|---|---|
| Marc Catalog: | |

# Archifdy Sir Gâr

## Derbynneb ar gyfer Rhodd / Cymynrodd / Benthyca Cofnodion

| Telerau'r Adneuo | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhodd: | | Cymynrodd: | | Benthyciad: | |

| | |
|---|---|
| Teitl: | Dyddiadau Perthnasol: |
| Disgrifiad:<br><br>Nifer: | |
| Yn ychwanegol i ddeunyddiau a ddelir eisoes gan Archifau Sir Gaerfyrddin? | |

| | |
|---|---|
| Enw'r Adneuwr: | Cyfeiriad Adneuwr: |
| Rhif Ffôn Adneuwr: | Cyfeiriad E-bost Adneuwr: |

| | |
|---|---|
| A oes unrhyw ran o'r hyn a Adneuir yn cynnwys data personol fel y'i diffinnir gan Ddeddf Gwarchod Data, 2018? | |
| Oes yna unrhyw resymau eraill dros gyfyngu mynediad? | |
| Os "Oes", rhowch fanylion, os gwelwch yn dda: | |

| | | |
|---|---|---|
| Trosglwyddo Hawlfraint<br><br>DS Dim ond perchennog yr Hawlfraint all drosglwyddo'r hawl hon. | Trosglwyddiad Llawn i'r Cyngor: | |
| | Trosglwyddiad (gan gadw'r hawliau ariannol): | |
| | Cadw'r Hawlfraint: | |
| | Pwy yw Perchennog yr Hawlfraint (os nad yr Adneuwr)? | |

| |
|---|
| Caniatâd i gael gwared ar neu drosglwyddo deunyddiau nad oes eu hangen? |
| Gofynnwyd am gopi o'r Catalog? |

| | |
|---|---|
| Rwy'n cytuno â'r telerau ac amodau: | Dyddiad: |
| Llofnod ar ran Archifau Sir Gaerfyrddin: | Dyddiad: |

This form is also available in English

**1. Diffiniadau:** Yn y cytundeb hwn, bydd **'Archifau Sir Gaerfyrddin'** yn golygu'r gwasanaeth archifau a weithredir gan Gyngor Sir Caerfyrddin; yr **'Adneuwr'** fydd y person neu'r sefydliad sy'n rhoi'r cofnodion ar adnau gyda'r Cyngor neu ei etifedd cyfreithlon neu olynydd mewn teitl fel y bydd y cyd-destun yn gofyn am hynny; bydd **'Cofnodion'** yn golygu unrhyw ddogfennau sy'n cyfleu gwybodaeth ysgrifenedig, weledol neu glywedol; bydd **'Rhodd'** neu **'Gymynrodd'** yn golygu'r weithred o roi'r cofnodion gan adneuwr i'r Cyngor fel rhodd ddiamod a gwastadol; bydd **'Benthyciad'** yn golygu bod yr adneuwr wedi rhoi'r cofnodion yng ngofal Archifau Sir Gaerfyrddin, ond na fydd hyn yn newid nac yn effeithio perchenogaeth y cofnodion mewn unrhyw ffordd.

**2. Adneuo:** Yn amodol ar ganiatâd, mae'r Rheolwr Trawsnewid Archifau yn cadw'r hawl i ddychwelyd i'r Adneuwr neu i ddinistrio'n gyfrinachol unrhyw gofnodion y bernir nad ydynt o unrhyw ddiddordeb hanesyddol ac i drosglwyddo i fangre adneuo mwy priodol unrhyw gofnodion nad ydynt yn cydymffurfio gyda'i bolisi casglu. Mae cofrestr o enwau a chyfeiriadau adneuwyr yn cael ei chadw'n barhaol gan Archifau Sir Gaerfyrddin. Ni fydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhyddhau i drydydd partïon heb ganiatâd penodol.

**3. Catalogio:** Bydd cofnodion a roddir ar adnau yn cael eu blaenoriaethu i'w catalogio yn unol â Strategaeth Gatalogio Archifau Sir Gaerfyrddin. Bydd cofnodion yn cael eu catalogio fel y bydd adnoddau'n caniatáu ac yn unol ag arferion presennol Archifau Sir Gaerfyrddin. Bydd copi o'r catalog yn cael ei ddarparu am ddim i'r adneuwr, os bydd yn gofyn amdano. Bydd perchenogaeth a hawlfraint unrhyw gymhorthion canfod o'r fath yn parhau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin. Bydd y catalog ar gael i'r cyhoedd yn ystafell chwilio Archifau Sir Gaerfyrddin.

**4. Cadwraeth:** Bydd cofnodion a adneuir gydag Archifau Sir Gaerfyrddin yn cael eu storio mewn cyflyrau sydd yn union yr un fath â'r rhai ar gyfer cofnodion y Cyngor ei hun, fydd yn cyfateb i BS 4971:2017. Storio ac Arddangos *Dogfennau Archifol.* Bydd y Cyngor yn cymryd pob gofal rhesymol i gadw cofnodion a adneuwyd rhag eu difrodi, mynd ar goll neu gael eu dwyn tra byddant yn cael eu storio, yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd, yn cael eu cadw neu yn cael eu harddangos. Mae cofnodion a gedwir gan Archifau Sir Gaerfyrddin yn cael eu hyswirio o dan ddiogelwch yswiriant cyffredinol y Cyngor. Bydd gan Archifau Sir Gaerfyrddin yr hawl yn ôl ei ddisgresiwn hollol: i wneud gwaith cadwraeth ac/neu waith adfer ar y dogfennau a fydd yn cael ei ystyried yn ddymunol ac yn ymarferol; i atal y cyhoedd rhag cael mynediad atynt os byddant mewn cyflwr bregus hyd nes y bydd y gwaith cadwraeth hwnnw wedi'i gwblhau; ac i labelu dogfennau gyda chyfeirnod ar gyfer eu hadnabod a'u cadw'n ddiogel.

**5. Mynediad:** Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau y cytunwyd arnynt drosodd ac yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau statudol neu gyfreithiol, bydd cofnodion a adneuwyd ar gael i'w gweld am ddim yn yr ystafell chwilio gyhoeddus gan unrhyw berson sy'n gofyn am gael mynediad atynt. Bydd y trefniadau ar gyfer mynediad y cyhoedd hefyd yn berthnasol i adneuwyr sy'n dymuno cael mynediad at eu cofnodion eu hunain. Efallai y bydd cyfyngiadau rhesymol ar hawl y cyhoedd i weld cofnodion unigol a adneuwyd ond ni dderbynnir cau unrhyw adneuon yn barhaol. Gellir defnyddio'r holl gofnodion a adneuwyd mewn sgyrsiau ac arddangosfeydd gan staff Archifau Sir Gaerfyrddin. Mae gan y cyhoedd hawl dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i weld cofnodion a gwybodaeth gyhoeddus sy'n cael ei dal gan gyrff cyhoeddus, ac eithrio lle byddai hyn yn mynd yn groes i'r Ddeddf Gwarchod Data 2018 neu lle byddai hyn wedi ei eithrio dan gymalau yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**7. Copïau a chyhoeddi:** Gellir cyflenwi copïau o gofnodion i unrhyw berson neu gorff, ar dalu ffi briodol, i'w defnyddio ar gyfer astudiaeth breifat ac fe ellir gwneud copïau ffotograffig, digidol, microffilm neu arall gan Archifau Sir Gaerfyrddin fel mesur cadwraeth. Ni chaniateir unrhyw atgynhyrchiadau pellach o gopïau heb ganiatâd y Rheolwr Trawsnewid Archifau a pherchennog(perchenogion) yr hawlfraint. Fe all y Rheolwr Trawsnewid Archifau yn ôl ei dd/disgresiwn roi caniatâd ar ran yr Adneuwr i gyhoeddi deunydd geir mewn casgliadau a adneuwyd sy'n agored ar gyfer eu hastudio. Bydd hyn ar yr amod bod cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i'r Adneuwr ac / neu Archifau Sir Gaerfyrddin gan y person sy'n gyfrifol am gyhoeddiad o'r fath, a fydd hefyd yn cydymffurfio gyda'r Deddfau Hawlfraint sydd mewn grym ar y pryd.

**8. Tynnu'n ôl:** Gellir tynnu'n ôl unrhyw gofnodion a dderbyniwyd <u>ar fenthyg</u> gan Archifau Sir Gaerfyrddin naill ai dros dro neu'n barhaol gan yr Adneuwr, ei gynrychiolydd achrededig neu ei olynydd mewn teitl, cyn belled ag y bo rhybudd digonol yn cael ei roi i'r Gwasanaeth. Lle mae cofnodion yn cael eu tynnu'n ôl yn barhaol, rhaid rhoi o leiaf chwe mis o rybudd yn ysgrifenedig i'r Gwasanaeth. Rhaid rhoi o leiaf pythefnos o rybudd yn ysgrifenedig ar gyfer tynnu cofnodion yn ôl dros dro. Yng nghyswllt tynnu'n ôl yn barhaol, mae Archifau Sir Gaerfyrddin yn cadw'r hawl i hawlio ad-daliad am y gost o gatalogio, gweinyddu a storio'r cofnodion ac unrhyw waith cadwraeth / diogelu a wnaed. Rhaid i'r Adneuwr dderbyn cyfrifoldeb am y fath gostau fel amod o dynnu'n ôl. Bydd y gost wirioneddol yn cael ei newid i adlewyrchu codiadau mewn costau byw rhwng dyddiad cael y costau a dyddiad yr ad-dalu. Bydd raid derbyn y taliad cyn tynnu unrhyw beth yn ôl. Bydd yr Adneuwr yn rhoi'r opsiwn i Archifau Sir Gaerfyrddin brynu'r cofnodion cyn iddynt gael eu cynnig i bartïon eraill. Bydd yr Adneuwr yn rhoi cyfnod o chwe mis i'r gwasanaeth archifau allu cael yr arian priodol. Bydd gan Archifau Sir Gaerfyrddin ddisgresiwn i godi tâl am waith a wneir yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol lle mae adneuon yn cael eu tynnu'n ôl dros dro. Rhaid i unrhyw berson fydd yn tynnu allan gofnodion a adneuwyd, boed hynny dros dro neu yn barhaol, ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig fydd yn profi mai ef/hi yw perchennog y cofnodion a adneuwyd a hynny er boddhad Archifau Sir Gaerfyrddin.

**9. Deddf Gwarchod Data 2018:** Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r rheolwr data ar gyfer y wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddibenion eraill. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yn ôl yr angen er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. Am fwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

## This form is also available in English

**Dyddiad Adolygu: Maw 2030**